miliwn o leisiau dros fyd natur

Cylchlythyr projectau amaethyddol yr RSPB

# Cnoi Cil

RHIFYN 10 TACHWEDD 2011

Ynys Llanddwyn

Guy Rogers (rspb-images.com)

# Mae'n newydd ac yn well – ac nid yw ond cant oed!

**Croeso i'n cylchlythyr ar ei newydd wedd ar gyfer gwirfoddolwyr a ffermwyr sy'n helpu i greu ac adfer cynefinoedd bywyd gwyllt Cymru. Rydym wedi gwrando ar eich sylwadau ar ein hen gylchlythyr, *Y Gornchwiglen*, ac rydym yn falch iawn ein bod bellach yn gallu cynnig mwy o erthyglau'n ymwneud â Chymru, yn ogystal â pharhau i ddarparu cipolwg o safbwynt yr UE a'r DU. Rydym yn gwerthfawrogi eich sylwadau a'ch awgrymiadau, felly cofiwch adael i ni wybod eich barn ar yr e-bost v&fa@rspb.org.uk**

Mae 2011 yn flwyddyn ein canmlwyddiant yng Nghymru ac rydym wedi bod yn dathlu mewn digwyddiadau'r RSPB ledled y wlad. Mae hi wedi bod yn wych cyfarfod cymaint o bobl sy'n rhannu ein cariad at fyd natur, ac sydd wedi cynorthwyo mewn cymaint o ffyrdd i sicrhau llwyddiant ein canmlwyddiant. Er i ni gychwyn ar raddfa fach, wrth warchod y nythfa o fôr-wenoliaid ar Ynys Môn, mae ein gweithrediadau yng Nghymru bellach yn cynnwys ymchwil i achosion prinhad bywyd gwyllt, profi atebion rheolaeth tir ar ein 18 o warchodfeydd natur, hyrwyddo polisïau amgylcheddol i Lywodraeth Cymru, helpu mwy o bobl i weld a mwynhau eu bywyd gwyllt lleol yn ogystal â chydweithio â rheolwyr tir i'w helpu i wella eu tir ar gyfer bywyd gwyllt.

Y gylfinir yw symbol ein canmlwyddiant a gallwch ddarllen am ein project i'w helpu yng ngogledd Cymru ar dudalen 12. Yn aderyn cyffredin ar ffermydd ucheldir Cymru ar un pryd, mae'r gylfinir wedi prinhau'n ddifrifol yn y degawdau diwethaf a chredir nad oes bellach ond oddeutu 600 o'r adar yma'n nythu yng Nghymru.

Mae projectau, fel yr un yma i'r gylfinir, yn dibynnu ar wybodaeth leol, cefnogaeth ac ewyllys da llawer o dirfeddianwyr a rheolwyr tir ar hyd a lled Cymru. Os ydych chi'n un o'r rhain, ac yn cydweithio â ni i helpu i hyrwyddo adferiad bywyd gwyllt, llawer iawn o ddiolch. Gyda'n gilydd gallwn gamu 'mlaen dros natur.

**Am ragor o wybodaeth, ewch i wefan y project ar www.rspb.org.uk/farming**

Mae Rhaglen LIFE+ yr UE sy'n ariannu gwaith yr RSPB yn cefnogi ffermio sy'n gyfeillgar i fywyd gwyllt ac yn hyrwyddo ymhellach ddatblygiad cynaliadwy yn yr Undeb Ewropeaidd.

**Yn y rhifyn hwn: Gwobr Natur Ffermio • Glaswelltir • Buddion gorgorsydd • Camu 'Mlaen Dros Natur • Dyddiadau ar gyfer dyddiadur 2012 • Uchelbwyntiau CGaFf • Mannau arbennig**

CYMRU



Chris Gomersall (rspb-images.com)

Mae rheolaeth coedlannau, megis prysgoedio, yn helpu bywyd gwyllt y goedlan

# Bywyd y goedlan

**Mae bron pob un ohonom yn cymryd cadw'n gynnes yn y gaeaf yn ganiatаol yn ogystal â chael gafael ar stanciau ffensio'n ddidrafferth. Yn y cyfamser, mae'r coedlannau a'r prysgwydd sy'n britho'n tirlun yn gorwedd yn ddistaw a heb eu rheoli'r dyddiau yma. Serch hynny, dim ond hanner canrif yn ôl roedd torwyr coed yn cynaeafu coed tân ac yn gwneud stanciau ffensio a golosg yn y coedlannau hyn.**

Rydym hefyd yn cymryd yn ganiatаol bod bywyd gwyllt y goedlan yn ffynnu yn nhawelwch esgeulustod o'r fath, ond nid yw hyn yn wir am lawer o rywogaethau. Mae llawer o adar, gloÿnnod byw a blodau gwyllt y goedlan a oedd yn ffynnu wrth i goedlannau gael eu trin a'u teneuo yn dioddef wrth i gysgod dail dywyllu'r goedlan.

Mae amryw o rywogaethau o adar sy'n dibynnu ar goedlannau, yn cynnwys y gylfinbraff a'r gwybedog brith, wedi prinhau'n sylweddol ers 1970. Er nad ydym yn deall yn llwyr pam fod pethau'n mynd o le, rydym yn gwybod bod y nodweddion y mae eu hangen arnynt – prysgwydd, lleiniau heulog a stribynnau agored, a choed aeddfed gyda changhennau ar led – yn diflannu.

Mae cost tanwydd cynhesu'n uchel, ac yn debygol o aros felly, ac mae hyn yn gyrru angen o'r newydd am danwydd pren (coed tân a sglodion coed) sy'n annhebygol o fod yn ffasiwn dros dro'n unig. Mae cynaeafu i ddarparu pethau megis tanwydd pren neu stanciau ffensio hefyd yn darparu'r strwythur i'r goedlan y mae ei angen ar fywyd gwylit, hyd yn oed mewn lleiniau bach a all gyfrannu at y farchnad leol.

Gellir ariannu adferiad coedlan a gweithredu rheolaeth o'r newydd gyda chefnogaeth grantiau'r Comisiwn Coedwigaeth, neu fe all ffurfio rhan o Gytundeb Rheoli Coedlan a fydd ar gael cyn bo hir drwy gyfrwng cynllun amaeth-amgylcheddol Glastir.

**Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â Nigel Symes ar nigel.symes@rspb.org.uk neu ffoniwch 01767 680551.**

# Camu 'Mlaen Dros Natur

**Mae natur mewn trybini – ac mae miliynau o bobl yn camu 'mlaen i gynorthwyo oherwydd mae ein bywyd gwyllt wedi bod yn diflannu'n gyflym. Fe all camau bach wneud gwahaniaeth mawr a phe baem i gyd yn gweithredu gyda'n gilydd ac yn bwrw iddi, gallwn achub byd natur.**

Mae byd natur yn anhygoel. Mae'n cyfoethogi ein bywydau. Mae'n gwneud i ni wenu, i wylo a chwerthin. Mae'n dod â hapusrwydd, llawenydd a heddwch. Ond mae mewn trybini. Yn drist iawn, mae natur yn prinhau'n raddol yn fyd-eang a bydd hyn yn tlodi ein bywydau, ac yn bygwth ein presenoldeb. Rydym yn benderfynol o sicrhau na fydd hyn yn digwydd. Rydym yn benderfynol y byddwn, erbyn 2020, yn byw mewn byd sy'n gyfoethocach o ran byd natur - yn harddach, yn iachach ac yn ein hysbrydoli – nag yw'r byd heddiw. Ond ni allwn wneud hyn ar ein pen ein hun. Rhaid i ni gydweithio gyda'n cefnogwyr a'r Llywodraeth i wneud i hyn ddigwydd. Dyna pam rydym yn galw ar filiynau o bobl i gamu 'mlaen dros natur.

Ochr yn ochr â'n rhwydwaith o warchodfeydd natur ledled y DU, mae arnom angen adfer ardaloedd enfawr o'n cefn gwlad i'w gyflwr blaenorol. Rydym yn gweithio mewn fforestydd glaw yn Affrica ac Asia. Mae arnom angen achub yr albatros yng nghefnforoedd y de. I wneud hyn, rhaid i ni i gyd gamu 'mlaen – a chysylltu pob cam a gymerwn gyda'n gilydd. Mae gwirfoddolwr yn cynnal arolwg adar, ffermwr yn helpu bywyd gwyllt ar ei dir, yr RSPB yn creu gwlyptir a'r Llywodraeth yn newid polisi er gwell.

Ar 200 o warchodfeydd ledled y DU, byddwn yn parhau i warchod, adfer ac ail-greu rhai o'r cynefinoedd sydd mewn cryn berygl ar ran y creaduriaid sy'n ffynnu yna. Ar ein fferm yn Swydd Gaergrawnt, byddwn yn parhau i brofi technegau ffermio i helpu bywyd gwyllt y ffermdir heb effeithio ar fywoliaethau. Drwy gyfrwng ein rhaglen Tirlun i'r Dyfodol, byddwn yn cydweithio gyda ffermwyr, tirfeddianwyr a rheolwyr i adfer ac ail-greu cynefinoedd ac i ddod â mwy o nodweddion sy'n gyfeillgar i fywyd gwyllt i ffermydd a fforestydd.

Daw rhai o'r enghreifftiau gorau o gamu 'mlaen dros natur ar ffurf ein gwirfoddolwyr y Gynghrair Ffermwyr a Gwirfoddolwyr, llawer ohonynt wedi bod yn camu 'mlaen ers blynyddoedd. Mae eu camau'n eu harwain i flaen y gad yn y frwydr dros fywyd gwyllt. Maent yn gwneud gwahaniaeth. Nid oes angen i bawb gymryd camau mor uniongyrchol na chamau mawr dros fyd natur i sicrhau budd, ond gwerthfawrogir eu cyfraniad yn fawr.

Byddwn yn annog ein cefnogwyr i gymryd camau dros natur, boed fach neu fawr. Bydd miliynau o weithrediadau unigol yn helpu bywyd gwyllt ar y ddaear. Ond, gyda'i gilydd, byddant yn cynrychioli rhywbeth llawer mwy – symudiad enfawr o bobl sy'n benderfynol o ddod â'r natur yr ydym i gyd yn ei garu yn ôl o ochr y dibyn. Bydd y symudiad hwn yn atgyfnerthu llais cadwraeth ac yn annog llywodraethau i wneud penderfyniadau doeth ar ran byd natur.

**Mae byd natur yn anhygoel. Mae byd natur mewn trybini. Dewch i gamu 'mlaen a'i achub – gyda'n gilydd. Am ragor o wybodaeth, ewch i www.rspb.org.uk/steppingup**

Andy Hay (rspb-images.com)

Camu 'mlaen dros natur: byddwch chi a bywyd gwyllt yn elwa

Roedd llinosiaid yn bresennol ar 56% ôr ffermydd a arolygwyd yng Nghymru

RSPB (rspb-images.com)

# Uchelbwyntiau CGaFf 2011

**Unwaith eto dangosodd ffermwyr a gwirfoddolwyr ledled y wlad ddiddordeb mawr mewn cymryd rhan ym mhroject y Gynghrair Gwirfoddolwyr a Ffermwyr.**

Mae'n wych bob amser gweld cymaint o ddiddordeb yn y project a chymaint o unigolion brwdfrydig sy'n dymuno gwybod mwy am adar eu fferm neu'r ardal leol.

Gydag ychydig dros flwyddyn o ariannu LIFE+ ar ôl erbyn hyn, rydym yn debygol o weld mwy o ddiddordeb gan fwy o dirfeddianwyr ledled y wlad a'n gobaith yw y bydd nifer o adarwyr parod a phrofiadol yn fodlon llenwi'r bylchau gan fod project atlas y BTO wedi dod i ben.

Cofnodwyd llawer o rywogaethau, llawer gormod i'w rhestru yma, ond dengys y tabl isod ganran y ffermydd lle cofnodwyd adar.

Ar gyfartaledd, cofnodwyd 40 rhywogaeth ar bob fferm ledled y wlad, a'r cyfrif uchaf o rywogaethau ar un fferm oedd 61.

**Ymysg uchelbwyntiau'r flwyddyn mae:**

- Haid enfawr yn cynnwys: 100+ aderyn y to, 60+ nico a 40+ llinos werdd a llinos mewn dôl wair a reolir yn dda ar fferm yn ne Cymru.
- Cynorthwyodd gwirfoddolwr gyda datod tylluan frech a oedd wedi cael ei dal mewn rhwydi'n gorchuddio ffrwythau meddal. Gollyngwyd y dylluan yn rhydd yn ddianaf.
- Cwblhawyd arolwg ym Mannau Brycheiniog i ffermwr a oedd wedi bod yn aros yn amyneddgar ers chwe blynedd i ddod o hyd i wirfoddolwr lleol.

**Os hoffech wybod mwy am y project cysylltwch â Mark Vercoe ar mark.vercoe@rspb.org.uk neu ffoniwch 01248 672850.**

**Canran ffermydd lle cofnodwyd adar yng Nghymru***

| | |
|---|---|
| Cog | 29 |
| Gylfinir | 35 |
| Petrisen | 3 |
| Cudyll coch | 26 |
| Cornchwiglen | 23 |
| Llinos | 56 |
| Ehedydd | 47 |
| Drudwen | 29 |
| Golfan y mynydd | 6 |
| Bras melyn | 29 |
| Siglen felen | 6 |

* ffigurau'n gywir wrth gyhoeddi hwn

# Cadw llygad ar ein mannau arbennig

**Mae monitro safleoedd eithriadol a rhywogaethau pwysig yn rheolaidd yn hanfodol. Ymunodd yr RSPB a Chyngor Cefn Gwlad Cymru (CCGC) i roi'r Project Monitro Safleoedd Adar Dynodedig ar waith yn 2008. Ei nod yw sicrhau bod Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig Cymru (SDdGA) yn cael eu monitro wrth ddefnyddio dulliau arolygu sydd wedi eu cymeradwyo, a bu'n hynod o lwyddiannus ers tair blynedd.**

Uchelbwyntiau arolygu'r llynedd: clwydfan gaeaf cigfrain ar SDdGA Niwbwrch ar Ynys Môn, gyda dros 700 o adar unigol yn cael eu cyfrif: a gylfinirod ar SDdGA Mign Whixall, Bettisfield, Wem a Cadney Moss – gyda rhai canlyniadau hynod o galonogol sy'n arbennig o berthnasol, gan mai'r gylfinir yw'r rhywogaeth y mae RSPB Cymru yn canolbwyntio arni yn ei blwyddyn canmlwyddiant.

Mae nifer o SDdGA coedlan ledled Cymru wedi eu harolygu i asesu'r casgliad o adar sy'n nythu yno, gyda rhywogaethau fel titw'r helyg, titw'r gors a'r gylfinbraff yn uchelbwyntiau bendigedig. Yn ogystal â monitro nodweddion adar ar y safleoedd SDdGA yma, mae'r project hefyd wedi dechrau monitro nodweddion SDdGA nad ydynt yn adar ar warchodfeydd yr RSPB. Dyma gyfle ardderchog i arolygu bywyd gwyllt pwysig arall ar warchodfeydd Cymru ac i wybod a yw'n ffynnu.

**Os hoffech wybod mwy, cysylltwch gydag Amy Vanstone ar amy.vanstone@rspb.org.uk neu ffoniwch 01248 672850.**

Titw'r gors

Ben Hall (rspb-images.com)

# GWOBR NATUR FFERMIO CYMRU 2011

**Gweithredir Gwobr Natur Ffermio gan yr RSPB, Plantlife, Cadwraeth Gloÿnnod Byw a *The Telegraph* gydag arian gan Raglen LIFE+ yr UE. Mae wedi bod yn llwyddiant mawr yng Nghymru a chafwyd llu o ymgeision o bob cwr o'r wlad. Amcan y wobr yw cydnabod ffermydd sy'n cynhyrchu bwyd ochr yn ochr â darparu mannau sy'n cynnal ein bywyd gwyllt. Roedd safon yr ymgeision yn eithriadol o uchel eleni, felly roedd dewis enillydd yn anoddach nag erioed. Gwnaed argraff fawr ar y panel beirniadu, gyda chynrychiolydd o bob corff cadwraeth, wrth weld i ba raddau roedd ffermwyr yn fodlon gweithredu er mwyn cynorthwyo bywyd gwyllt ar eu ffermydd, ac roeddent wedi eu hysbrydoli gan amrywiaeth cyfoethog y cynefinoedd a'r rhywogaethau a welwyd yno.**

## Enillydd 2011
## Richard a Gethin Owen

*Nant-yr-Efail, Betws-yn-Rhos*

**Cofrestrwyd Nant-yr-Efail, fferm gymysg 69 hectar ar dir isel yn edrych dros arfordir gogledd Cymru, yn organig ers 2008, ac mae hi'n rhan o gynllun amaeth-amgylcheddol Tir Gofal. Perchennog y fferm yw Richard Owen ac mae ef a'i fab Gethin yn ei rhedeg gyda'i gilydd. Cariad Gethin tuag at y bywyd gwyllt ar ei fferm sydd wedi arwain at ei ddiddordeb mewn gwybod mwy amdano, ac yna i reoli'r fferm mewn ffyrdd sy'n annog ffyniant y bywyd gwyllt hwnnw. Ers degawdau, dim ond glaswelltir wedi ei wella oedd ar y fferm, ond mae Richard bellach yn defnyddio cefnogaeth cynlluniau amaeth-amgylcheddol i ffermio'n organig. Gyda'r cefndir hwn ac wrth feithrin synnwyr busnes da, gwnaed penderfyniadau a newidiadau ar gyfer cynyddu'r nifer o gynefinoedd ac i ffermio'n llai dwys.**

Mae'r fferm yn dal i gynnal cyfoeth o laswelltir, ond bellach hefyd mae yma fwy o amrywiaeth a diddordeb yn cynnwys glaswelltir asid heb ei wella a phrysgwydd eithin gydag ystod eang o berlysiau a rhywogaethau blodeuol. Ymysg y caeau gwair mae bellach rawn y gwanwyn, sofl y gaeaf, rhywogaethau bresych a thatws, i gyd yn gymysg â phennau blodau mwg y ddaear, briwlys, llaethlys a danadl sy'n cynnal heidiau mawr o adar fel y llinos a'r ehedydd. Yn cysylltu'r cwbl mae coridor o wrychoedd trwchus a reolir yn dda, ffosydd, cyrion glaswellt, coedlannau a phrysgwydd lle mae adar fel y coch y berllan, golfan y mynydd, llwydfron a thelorion yn ffynnu.

Yn ogystal â meithrin synnwyr busnes da wrth wneud penderfyniadau, mae'r teulu Owen hefyd wedi mynd y tu hwnt i ofynion Tir Gofal a'u statws organig, ac wedi dod o hyd i ffyrdd o drin y tir. Yn aml iawn mae'r ffyrdd newydd yma yn arbed arian yn ogystal â chreu gofod i fywyd gwyllt heb fawr o ymdrech.

**Er mai Nant-yr-Efail ddaeth i'r brig, mae angen cydnabod hefyd dwy fferm arall a wnaeth gymaint o argraff ar y panel beirniadu fel eu bod wedi eu gwobrwyo â statws Cymeradwyaeth Uchel yn yr ail safle.**

*Fferm Penlan, a reolir gan*
## Richard Gough

**Mae Penlan yn cyflenwi ystod o gynhwysion ar gyfer Burns Pet Nutrition Ltd, yn cynnwys wyau pen domen, grawn, tatws a moron. Mae'r fferm yn hafan i fywyd gwyllt gyda rhai syniadau hynod o fentrus ar sut i reoli fferm fasnachol a sicrhau lle i ddigonedd o fywyd gwyllt yr un pryd! Gweler yr erthygl ar y dudalen nesaf am gipolwg ar Benlan.**

*Hafoty Gwyn*
**Fferm ddefaid a bîff yng nghanol ardal Hiraethog yng ngogledd Cymru yw hon.**

## Hywel Williams

**Cafodd tenant y fferm, Hywel Williams, gydnabyddiaeth yn 2004 am ei ymdrechion i helpu cornchwiglod a oedd yn nythu yn Hafoty Gwyn drwy gael ei wobrwyo'n enillydd Cymru o Gynllun y Gornchwiglen. Nawr mae wedi ei gydnabod am ei ymdrechion i wneud ei fferm yn hafan i fywyd gwyllt o bob math. Gallwch ddarllen mwy am fferm Hywel, yn arbennig ei gornchwiglod, ar www.farmwildlife.info/case/details.asp?x=28**

lâr fach dramor

# Ffocws ar fferm – fferm Penlan

**Nid yw bwyd anifeiliaid anwes yn rhywbeth y byddech yn ei gysylltu'n syth â chadwraeth, ond yn Burns Pet Nutrition mae wedi bod yn rhan o ethos y cwmni erioed. Ym 1998, o ganlyniad i ddatblygiad casgliad newydd o fwyd llaith i anifeiliaid anwes a grëwyd o ffynonellau lleol ac a gynhyrchwyd yn lleol, prynwyd fferm i gynhyrchu cynhwysion. O ganlyniad bu i'r cyn-uned laeth ddarparu cyfle delfrydol i'r cwmni ymarfer ei gredoau ynglŷn â chadwraeth a lles anifeiliaid.**

Yn ogystal ag wyau pen domen a llysiau ar gyfer yr ystod o fwyd anifeiliaid anwes, mae fferm Penlan ar hyn o bryd yn cynhyrchu cnydau fel atodiad i fwyd yr ieir a gwair traddodiadol y ddôl sy'n cael ei fasnachu fel "Gwair Dôl Gymreig" ac sy'n ffurfio sail casgliad y cwmni o fwyd anifeiliaid bach. Os nad oes angen wyau ar gyfer y cynnyrch yna maent yn cael eu gwerthu ar ochr y ffordd drwy ddefnyddio blychau gonestrwydd.

Project tymor hir yw fferm Penlan ac ni fydd rhai cynlluniau'n cael eu gwireddu am sawl blwyddyn. Mae rhai gwelliannau wedi cael blaenoriaeth, ac wedi eu rhoi ar waith, megis adfer a thrwsio gwrychoedd, plannu coedlannau a pherllannau newydd, a chreu cyrion cae llydan fel cynefin, ffynonellau o fwyd a choridorau i fywyd gwyllt. I roi syniad i chi o'r ymrwymiad i gadwraeth, yn ystod y flwyddyn ddiwethaf mae dros 5,000 o goed a llwyni brodorol wedi eu plannu o amgylch Penlan. Ymysg y rhain mae helyg a chyll, a fydd yn y pen draw'n cael eu defnyddio'n fasnachol.

Mae Burns Pet Nutrition yn creu cynefin hanfodol ar gyfer rhywogaethau mewn perygl drwy weithio gydag ystod o gyrff cadwraeth yn cynnwys yr RSPB a Chadwraeth Gloÿnnod Byw. Er enghraifft, mae'n sefydlu hafanau i wenyn ar dros 20 hectar o dir gyda chymorth Ymddiriedolaeth Cadwraeth Cacynnod.

Nod Burns yw gwneud y fferm yn safle enghreifftiol sy'n arddangos bod ffermio masnachol yn gallu cyd-fyw'n llwyddiannus gyda chadwraeth. Gyda chynlluniau ar y gweill ar gyfer mynediad i'r cyhoedd a dosbarthiadau awyr agored, mae'n sicr bod fferm Penlan yn cael ei rheoli gyda llygad ar y dyfodol.

**Am ragor o wybodaeth, ewch i wefan Penlan i weld eu blogiau cadwraeth ar http://burnspet.co.uk**

**I anfon cais ar ran eich fferm yn 2012 ffoniwch 01767 680551 neu ewch i www.rspb.org.uk/farming**

# Cefnogi ein ffermwyr fel eu bod yn gallu cynnal ein bywyd gwyllt

**I lawer o ffermwyr Cymru, mae gwneud bywoliaeth o'u tir yn gallu bod yn eithriadol o anodd – ac yna mae pwysau gwarchod adnoddau naturiol a bioamrywiaeth yn cymhlethu pethau fwyfwy. Yn wir, byddai'n dynn iawn ar amryw o ffermwyr heb gymorthdaliadau fel y Taliad Fferm Unigol a chynlluniau amaeth-amgylcheddol.**

Gyda chymaint o'n hadar ffermdir eiconig yn prinhau yn y degawdau diweddar, mae arnom angen i ffermwyr gamu 'mlaen dros natur a darparu'r cynefin sydd ei angen arnynt: y safleoedd nythu diogel a digon o adnoddau bwyd yn yr haf a'r gaeaf. Ond i wneud hyn mae angen cefnogaeth ar ffermwyr, o gyrff amgylcheddol fel yr RSPB, ac yn ariannol gan Lywodraeth Cymru.

Mae cynlluniau amaeth-amgylcheddol yn gefnogaeth hanfodol. Mae modd eu cynllunio'n arbennig i ariannu cynefin i fywyd gwyllt. Er enghraifft, efallai bod modd iddynt ddarparu mannau o laswelltir a reolir ar gyfer cornchwiglod a gylfinirod sy'n nythu, cnydau lloches i adar gwyllt sy'n cyflenwi bwyd digonol dros y gaeaf i adar fel y bras melyn a golfan y mynydd, neu gyrion glaswellt sy'n byrlymu â phryfed sy'n bwydo cymaint o adar, fel y betrisen. Er mwyn cael cyfle i sicrhau llwyddiant, rhaid i'r cynlluniau hyn weithio i'r ffermwr yn ogystal â bywyd gwyllt. Mae Glastir, cynllun amaeth-amgylcheddol newydd Llywodraeth Cymru, wedi ei feirniadu'n hallt yn ddiweddar. Yn dilyn y rownd gyntaf o geisiadau disgrifiwyd y lefel o ddiddordeb fel "siomedig o isel" a'r cynllun ei hun fel un "amhoblogaidd". Os nad yw'r cynllun hwn yn annog ffermwyr i gymryd rhan, yna mae wedi methu cyn cychwyn.

Mae RSPB Cymru'n parhau i fod yn gefnogwr cryf i'r cynllun. Rydym yn lobio'n egnïol i sicrhau bod y cynllun yn ddeniadol i ffermwyr ac yn effeithiol dros rywogaethau ffermdir. Mae llwyddiant yn dibynnu erbyn hyn ar allu Llywodraeth Cymru i anelu arian digonol tuag at fesurau sy'n gyfeillgar i fywyd gwyllt fel bod ffermwyr Cymru yn gallu derbyn y cymorth a'r gefnogaeth sydd eu hangen arnynt. Os byddant yn derbyn llai na hyn, yna mewn ychydig o flynyddoedd byddwn yn gofyn i Lywodraeth Cymru pam y methwyd ag ateb targed bioamrywiaeth 2020.

**Am ragor o wybodaeth cysylltwch os gwelwch yn dda ag Arfon Williams ar arfon.williams@rspb.org.uk neu ffoniwch 029 2035 3000.**

# Partneriaethau'n cynorthwyo gyda gwireddu cadwraeth effeithiol

**Daw ystod o heriau technegol ac ymarferol yn amlwg wrth i ni weithio i warchod ein bywyd gwyllt ac annog bioamrywiaeth yn ôl i'n tirluniau. Ein nod yw cadwraeth effeithiol a rheolaeth tir cynaliadwy. Sicrheir hyn orau os oes casgliad priodol o fywyd gwyllt brodorol yn bresennol (un ai drwy ei gadw yno neu wrth ei adfer), ac os yw ecosystemau'n cael rhyddid i weithredu'n naturiol. Nodwedd amlwg o ymdrech gadwraethol effeithiol yw'r canolbwynt ar ddull o weithredu sy'n seiliedig ar dystiolaeth a gallu i weithio ar nifer o raddfeydd, o lefel y maes i'r tirlun.**

Mae RSPB Cymru a'i phartneriaid wedi ymgymryd â rheolaeth cadwraeth a monitro poblogaeth y rugiar ddu mewn parthau rheolaeth mawr ar hyd a lled ucheldir gogledd Cymru ers 1998. Mae'r ardaloedd yn cynnwys ystod o gynefinoedd, megis rhostir agored, cyrion coedwig, tir amaethyddol a thir a reolir ar gyfer hela.

Mae poblogaeth y rugiar ddu'n cael ei mesur gan dueddiadau o ran ceiliogod sy'n arddangos eu hunain (ar lecynnau arbennig), ac yn 2010 roedd y boblogaeth wedi cynyddu yn ôl i lefelau a welwyd olaf yn 2002. Yn 2011 mae'r boblogaeth wedi parhau i ddangos arwyddion positif o adferiad. Cofnodwyd dros 230 o geiliogod yn arddangos eu hunain, y canlyniad gorau ers dechrau monitro'n flynyddol ar ddechrau'r 1990au (yn yr ardaloedd lle'r oedd monitro'n digwydd yn flynyddol) ac yn well hyd yn oed na'r arolwg cenedlaethol cyntaf ym 1986 pan gofnodwyd 264-300 o geiliogod yn arddangos eu hunain.

Mae ein gwaith yn gwireddu buddion i boblogaeth y rugiar ddu yng Nghymru ac yn pwysleisio'r angen am wireddu cadwraeth ledled tirluniau gydag ystod o bartneriaid, yn y sector preifat a chyhoeddus. Ond mae llawer o waith ar ôl i'w wneud er mwyn cadarnhau'r enillion hyn ac i adfer y rhywogaeth i ardaloedd lle'r oedd ar un tro'n nodwedd allweddol. Atebir yr her hon drwy raglen Tirlun i'r Dyfodol RSPB Cymru. Mae ardaloedd rheoli'r rugiar ddu'n rhan o broject Tirlun i'r Dyfodol Rhostiroedd Gogledd Cymru, a gynlluniwyd i ddod â chadwraeth effeithiol a rheolaeth tir gynaliadwy at ei gilydd.

**Os hoffech wybod mwy am y project hwn cysylltwch â Stephen Bladwell ar stephen.bladwell@rspb.org.uk neu ffoniwch 01248 672850.**

**Mae dyfodol adar ffermdir fel y betrisen yn dibynnu ar y gefnogaeth a roir i ffermwyr am eu cynorthwyo**

Chris Gomersall (rspb-images.com)



**Roedd dros 320 o geiliogod y rugiar ddu'n arddangos eu hunain yng Nghymru yn 2010**

Andy Hay (rspb-images.com)

Mae'r orgors yn cynnal planhigion arbenigol, fel gwlithlys

gorgorscymru

# Carthen wlyb ryfeddol

**Mae'r cyfanswm enfawr o 8,447 hectar (ha) o gynefin yr ucheldir yng nghanolbarth Cymru wedi elwa o broject LIFE Gorgors Fyw Cymru. Prif nod y project oedd gwella'n sylweddol gyflwr gorgorsydd ledled Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACA) y Berwyn a Mynyddoedd De Clwyd yng Nghymru.**

Roedd y project yn weithredol am bum mlynedd, a daeth i ben ym mis Mawrth. Yn ogystal â gwaith ymarferol ar y ddaear megis ail-wlychu, roedd y project hefyd yn anelu, drwy waith eiriolaeth ac addysg, i godi ymwybyddiaeth am bwysigrwydd y cynefin hwn ymysg tirfeddianwyr, rheolwyr tir a chymunedau lleol.

Yn y DU mae rhwng 12-15% o orgorsydd y byd, ac yma yng Nghymru mae gennym 4%. I fod yn 'weithredol', mae angen i orgorsydd fod â haen o lystyfiant sy'n ffurfio mawn, mwsoglau migwyn yn bennaf, a lefel trwythiad sy'n gweithredu'n naturiol.

Mae'r orgors yn gartref i lawer o blanhigion, pryfed ac adar arbenigol yn cynnwys y rugiar ddu a'r boda tinwyn. Yn ffynhonnell bwysig o ddŵr yfed, daw oddeutu 70% o ddŵr yfed y DU o'n hucheldir. Mae pridd y fawnog yn storfa garbon ardderchog ond os yw'r orgors yn cael ei niweidio, fe all ryddhau symiau enfawr o $CO^2$ i'r atmosffer. Mae gorgorsydd yn rhan o hanes a diwylliant Cymru, ac mae ffermio'r ucheldir a darparu ar gyfer hamdden yn ffynhonnell o incwm hynod o bwysig i'r economi leol. Wrth adfer yr ardaloedd yma o orgors sicrheir buddion i gymunedau lleol yn ogystal â chymunedau ehangach.

Aeth y project i'r afael â bygythiadau mawr i'r cynefin drwy gau ffosydd artiffisial, cwympo coed anfrodorol a thorri stribynnau atal tân i arafu unrhyw danau damweiniol. Llenwodd y project gyfanswm o dros 485 cilometr (y pellter o Lyn Efyrnwy i Aberdeen fel yr hed y frân) o ffosydd draenio, cwympwyd coed Sitka anfrodorol o dros 6,000 ha o'r ucheldir, a chrëwyd o leiaf 292 hectar o stribynnau atal tân uwchben Llyn Efyrnwy. O ganlyniad adferwyd dros 3,000 hectar yn fwy na nod gwreiddiol y project.

**Os hoffech gael mwy o wybodaeth am y project yna cysylltwch â Mike Morris ar mike.morris@rspb.org.uk**

Llenwi ffosydd uwchben Llyn Efyrnwy

gorgorscymru

Clirio fforestydd

gorgorscymru

Cwympo coed

gorgorscymru

# Gwell cynefin i'r bras melyn

**Os ydych chi wedi bod yn darllen am gadwraeth adar yng Nghymru dros y ddegawd ddiwethaf rydych yn debygol o fod wedi clywed am Broject Bras Melyn yr RSPB yn nyffrynnoedd Dyfi a Dysynni yng ngorllewin Cymru. Mae'r project wedi bod yn cydweithio mewn partneriaeth gyda ffermwyr, tirfeddianwyr a chyrff eraill ers bron i wyth mlynedd. Drwy gyfrwng y project, tyfir cnydau lloches sy'n llawn ŷd i adar – bwyd y gaeaf i'r bras melyn – mewn ardal nythu bwysig i'r breision bach melyn yma.**

Y gaeaf hwn, bydd dau o'r ffermwyr sydd wedi bod yn cydweithio mewn partneriaeth â'r RSPB yn rhoi cynnig ar rywbeth newydd. Yn seiliedig ar dreialon a roddwyd ar y gweill mewn mannau eraill yn y DU, bydd y ffermwyr yma, sy'n amaethu yn nyffryn Dysynni, yn tyfu gwair yn arbennig ar gyfer breision melyn.

Efallai ei fod yn swnio fel syniad gwallgof, ond yma yng Nghymru rydym yn amaethu mewn tirlun sy'n welltir yn bennaf, gyda ffermio âr yn llai cyffredin nag yn y gorffennol. Mae'r gostyngiad hwn mewn ffermio âr wedi chwarae rhan fawr ym mhrinhad rhai o'n hadar ffermdir sy'n bwyta hadau, yn cynnwys y bras melyn, y betrisen a golfan y mynydd. Felly sut mae tyfu mwy o wair yn mynd i'w helpu?

Mae ŷd yn perthyn i deulu'r gwair, ac mae rhywogaethau ein glaswellt silwair presennol, fel rhygwellt yr Eidal, yn cynhyrchu hadau eithaf mawr. Os nad yw'r math hwn o laswellt yn cael ei dorri a'i bori dros y gaeaf, gwelwyd mewn treialon ei fod yn denu nifer fawr o adar sy'n bwyta hadau fel bras y cyrs a'r bras melyn.

Bydd y lleiniau yma o silwair yn cael eu monitro dros y gaeaf i ddyfalu dwysedd pennau hadau a'u defnydd gan adar. Mae'r ffermwyr a'r RSPB yn gobeithio y bydd y lleiniau yma o silwair yn denu'r bras melyn, cymaint gobeithio â'r nifer sydd wedi bod yn bwydo yn y lloches adar gwyllt a blannwyd yn y blynyddoedd blaenorol. A allai silwair ddarparu ffordd newydd i ffermwyr a chadwraethwyr ailgyflenwi rhywfaint o'r bwyd sydd ar goll dros y gaeaf ar gyfer adar sy'n bwyta hadau fel y bras melyn? Gwyliwch y gofod hwn…

**Am ragor o wybodaeth am y project neu am wybodaeth ynglŷn â sut i helpu adar a bywyd gwyllt ar eich fferm, cysylltwch â Lesley Fletcher ar lesley.fletcher@rspb.org.uk neu ar 07776 453360.**

Ernie Janes (rspb-images.com)

Fe all silwair heb ei dorri gynnig cymorth i'r bras melyn

**Am gyngor arbenigol ar flaenau eich bysedd ewch i www.farmwildlife.info**

# Project y gylfinir yn nodi canmlwyddiant yr RSPB yng Nghymru

**Mae eleni'n nodi can mlynedd aruthrol o waith yr RSPB yng Nghymru, a'r gylfinir yw aderyn ein canmlwyddiant. Felly beth all fod yn fwy priodol na nodi'r achlysur gyda phroject newydd i'r gylfinir yn ardal Hiraethog yng nghanolbarth gogledd Cymru?**

Mae gylfinirod sy'n nythu wedi prinhau o 80% yng Nghymru yn y degawdau diwethaf a cheir y boblogaeth fwyaf sydd ar ôl yng Nghymru yn ardal Hiraethog. Mae'r nifer o ylfinirod yn parhau i ostwng ac nid ydym yn deall yn iawn y ffactorau sy'n effeithio arnynt. Felly rydym yn ceisio darganfod beth sydd ei angen ar ylfinirod Hiraethog i ffynnu. Yn ogystal â chofnodi ein harsylwadau ein hunain, rydym wedi bod yn holi ffermwyr lleol ynglŷn â'r gylfinirod ar eu tir, ac yn rhannu ein harsylwadau gyda hwy.

Awgrymodd y darganfyddiadau cyntaf eleni bod y nifer o ylfinirod a chornchwiglod wedi prinhau, er nad oedd hyn wedi digwydd ym mhobman. Efallai bod yr Ebrill sych wedi darparu amodau nad oeddynt yn ddelfrydol i'r gylfinir ac efallai bod y gaeaf oer wedi effeithio'n fawr ar y gornchwiglen.

Rhan o'r project yw codi ymwybyddiaeth am yr adar yma, felly yn ystod y tymor nythu eleni cynhaliwyd gennym bedwar digwyddiad tywysu llwyddiannus. Yn ogystal â chael cyhoeddusrwydd da yn y cyfryngau argraffedig, ymddangosodd swyddog maes cynorthwyol eleni, Siôn Dafis, ar rifyn o'r rhaglen deledu *Ffermio* ar S4C, gan helpu i amlygu prinhad yr adar yma a'n gwaith. Rydym hefyd wedi cyfarfod â llawer o ffermwyr lleol ag eraill mewn sioeau amaethyddol lleol yn ddiweddar.

Gobeithiwn y bydd yr wybodaeth a gesglir o'r astudiaeth, ar y cyd â gwybodaeth leol, yn golygu y bydd ffermwyr a thirfeddianwyr yn cael eu darparu â gwell cyngor ynglŷn â sut i helpu'r gylfinir ar eu tir. Efallai y bydd hefyd yn golygu y gallwn eu cynorthwyo i wneud yn fawr o'r cynllun amaeth-amgylcheddol newydd, Glastir.

**Am ragor o wybodaeth am y project, ewch i www.rspb.org.uk a chwiliwch am "Project Rhydwyr Hiraethog" neu cysylltwch â Dave Elliott ar dave.elliott@rspb.org.uk ac os hoffech wybod mwy ynglŷn â sut i helpu'r gylfinir neu fywyd gwyllt arall ar eich fferm, cysylltwch ag un o'n swyddogion ymgynghorol ar lesley.fletcher@rspb.org.uk neu sion.dafis@rspb.org.uk neu ffoniwch ein swyddfa ym Mangor ar 01248 672850.**

Mae gylfinirod sy'n nythu yng Nghymru wedi prinhau o 80%

Chris Gomersall (rspb-images.com)

# Gwylio Adar yr Ardd Mawr

**Diolch i bawb fu'n cymryd rhan yn arolwg Gwylio Adar yr Ardd Mawr yn 2011. Bu'r nifer anhygoel o 609,177 o bobl yn cyfrif dros 10.2 miliwn o adar dros benwythnos 29 a 30 Ionawr.**

Datgelodd y Gwylio Adar bod rhai o'r adar llai a oedd wedi prinhau o ran nifer y llynedd wedi cynyddu eto eleni. Dyna newydd da! Gwelwyd bron i ddwbl y nifer o ddrywod eurben, cynyddodd y titw cynffon-hir o draean, a chynyddodd y titw penddu o chwarter.

Er bod tywydd garw'n gallu effeithio'n arbennig o andwyol ar adar llai, mae tymor nythu da yn gallu helpu i wrthdroi prinhad. Mae'r canlyniadau yma'n awgrymu bod hyn wedi digwydd yn 2010.

Parhaodd yr aderyn y to ar frig y rhestr am yr wythfed flwyddyn yn olynol. Newidiodd y ddrudwen ei lle gyda'r fwyalchen eleni, a bellach mae'r ddrudwen yn rhif dau a'r fwyalchen yn rhif tri. Mae'r nifer o ddrudwennod a welwyd wedi cynyddu o chwarter ers y llynedd, ond mae eu nifer yn dal yn is nag yr oeddynt pan roddwyd Gwylio Adar yr Ardd ar waith am y tro cyntaf ym 1979.

Roedd miloedd o bobl yn ddigon ffodus i weld y gynffon sidan. Mae'r adar yma'n heidio i'r DU o Sgandinafia bob hyn a hyn a daeth llu i'n gwlad eleni. Yn aderyn hyderus, mae'n bwydo o amgylch ein trefi a'n dinasoedd, a chyfrifwyd dros 7,000 yn arolwg eleni, mewn bron i 1,000 o erddi.

Y flwyddyn nesaf cynhelir arolwg Gwylio Adar yr Ardd Mawr dros benwythnos 28 a 29 Ionawr 2012. Ymunwch â ni i'n helpu i'w wneud yn fwy nag erioed!

**Ewch i www.rspb.org.uk/birdwatch am fwy o wybodaeth.**

Steve Blain (RSPB)

Pob hyn a hyn, mae'r gynffon sidan yn llifo i'r DU o Sgandinafia

Andy Hay (rspb-images.com)

Bras yr ŷd

# Parhau i chwilio am freision

**Mae ffermwyr a'r RSPB wedi dod ynghyd i annog breision yr ŷd i nythu. Y llynedd cawsoch wybod am y gwaith a roddwyd ar y gweill ger pentref Bettisfield ar ffin Sir Wrecsam a Swydd Amwythig i annog breision yr ŷd sy'n nythu i ddychwelyd i'r ardal ac i Gymru.**

Mae'r breision streipïog brown a chrwn yma'n nythu ar y ddaear, yn aml mewn ŷd a heuir yn y gwanwyn. Felly, yn dilyn y bwydo ychwanegol yn ystod gaeaf 2009/2010, sefydlwyd dwy lain o gymysgedd o rawn heb ei gynaeafu i ddarparu mannau diogel i'r bras yr ŷd nythu ynddynt. Yna gadawyd y lleiniau hyn heb eu cynaeafu fel bod breision yr ŷd ac adar eraill sy'n bwyta hadau yn gallu bwydo'n ystod y gaeaf. Gwelwyd amrywiaeth o rywogaethau'n defnyddio'r hadau dros y gaeaf: hyd at saith bras melyn, 40+ o olfanod y mynydd a breision y cyrs, 100+ o linosiaid a 200 o linosiaid gwyrdd, yn ogystal â phincod y mynydd a nicoaid. Yn anffodus ni welwyd yr un bras yr ŷd yn nythu'n ystod yr haf nag yn bwydo dros y gaeaf, ac er bod hyn yn amlwg yn siomedig rydym yn gwybod nad oeddynt ymhell i ffwrdd, oherwydd cafwyd cofnodion o haid o 24 bras yr ŷd yn agos at y ffin yn gynharach yn y flwyddyn.

Gyda chydweithrediad ac ewyllys da tirfeddianwyr lleol, y gwanwyn hwn sefydlwyd dwy lain dau hectar yr un ychwanegol o farlys a heuir yn y gwanwyn. Ni chawsant eu chwistrellu, gan ddarparu rhywle diogel i nythu, ac yna fe'u gadawyd heb eu cynaeafu i ddarparu bwyd dros y gaeaf. Mae'r lleiniau'n cael eu monitro gan staff yr RPSB a gwirfoddolwr lleol a gobeithiwn y bydd gennym gofnodion positif i'w hadrodd erbyn y flwyddyn nesaf.

**Os hoffech gael mwy o wybodaeth am y project neu os hoffech wybod mwy ynglŷn â sut i sicrhau budd i fywyd gwyllt eich fferm cysylltwch â Mark Vercoe ar mark.vercoe@rspb.org.uk neu ffoniwch 01248 672850.**

Mae sioeau amaethyddol yn un o'r dulliau gorau o gyfathrebu â ffermwyr

Kathryn Smith (RSPB)

# Cyngor mewn sioeau amaethyddol yn 2012 ac ar-lein

**Fel arfer, byddwn yn ymweld yn ystod y flwyddyn â sioeau a digwyddiadau ledled y DU. Dyma rai o'r sioeau y byddwn yn eu mynychu – cofiwch alw draw i gael sgwrs efo ni.**

Yn y cyfamser, os oes gennych unrhyw gwestiynau, ewch i **www.farmwildlife.info**

Mae'r wefan yn cynnal fforwm drafodaeth lle gallwch ofyn cwestiynau neu bostio syniadau. Mae astudiaethau achos o ffermwyr sydd wedi mabwysiadu strategaethau rheolaeth gwahanol i hybu bywyd gwyllt eu fferm. Mae yno hefyd galendr digwyddiadau.

- **Sioe Balmoral**, King's Hall, Belfast. 16–18 Mai
- **Beef Expo**, Three Counties Showground, Malvern. 24 Mai
- **Grawn**, Boothby Heath, Lincolnshire. 13/14 Mehefin
- **Sioe Frenhinol yr Alban**, Royal Highland Centre, Caeredin. 21–24 Mehefin
- **Defaid**, Three Counties Showground, Malvern. 4 Gorffennaf
- **Sioe Frenhinol Cymru**, Llanelwedd, ger Llanfair-ym-muallt. 23–26 Gorffennaf
- **Digwyddiad Llaeth a Da Byw**, NEC, Birmingham. 4/5 Medi

# Plannu blog mewn tir ffrwythlon

**Mae blogio wedi tyfu o bron i ddim byd i ffenomenon byd-eang mewn ychydig iawn o flynyddoedd. Ar hyn o bryd mae dros 166 miliwn o flogiau ar gael i'w darllen ar y rhyngrwyd. Yr haf hwn, ymunodd tîm amaeth yr RSPB yn hyn a phlannwyd eu blog ffermio ar y rhith dirlun.**

Mae'n egino'n dda. Mae llawer o'n staff ymgynghorol, project a pholisi yn rhannu eu newyddion diweddaraf a'u barn ar y blog ffermio ar **www.rspb.org.uk/community/ourwork/farming/b/farming-blog/default.aspx**

Hoffem ymestyn ein sgyrsiau blogio i gynulleidfa ehangach, oherwydd maent yn gyfle gwych i adael i bobl wybod am ein gwaith. Hoffem weld mwy o ffermwyr a'r sawl sydd â diddordeb mewn ffermio yn dod i'n hadnabod, ac ymuno yn y sgyrsiau hefyd.

Mae dwy ffordd o gymryd rhan – gallwch ymateb i'r negeseuon a osodir gennym ar y blog, neu gallwch greu eich trywydd eich hun ar y Fforwm Ffermio cysylltiedig. Cofiwch ymuno â ni a rhannu eich meddyliau, pryderon, cyngor a syniadau.

**Gallwch wirio'r negeseuon diweddaraf yn uniongyrchol o'n tudalen gartref ffermio ar www.rspb.org.uk/farming**

**Am gyngor arbenigol ar flaenau eich bysedd ewch i www.farmwildlife.info**

# Beth yw barn ffermwyr am y GGaFf?

**Mae clywed beth yw barn ffermwyr am y GGaFf yn golygu ein bod yn gallu gwneud gwelliannau fel ein bod i gyd yn elwa cymaint â phosibl o'r project.**

Pob blwyddyn, anfonir holiaduron i ffermwyr a dderbyniodd gopi o arolwg y flwyddyn cyn y diwethaf. Mae hyn yn caniatáu amser i weithredu yn ôl unrhyw gyngor a thechnegau rheoli y gofynnwyd amdanynt.

Dengys yr holiaduron gan ffermwyr a atebodd yn 2010 bod:

- 96% o ffermwyr yn teimlo bod cymryd rhan yn y GGaFf yn brofiad gwerth chweil
- 96% o ffermwyr yn credu bod y map wedi ei lamineiddio yn ddefnyddiol
- 90% o ffermwyr wedi gweithredu'n ymarferol i wireddu'r canllawiau rheolaeth dros adar ffermdir a ddaeth gyda'r map
- bod rhywogaethau ar dir 80% o ffermwyr nad oeddynt wedi sylwi arnynt cyn hynny

# A beth yw barn gwirfoddolwyr?

Dengys yr holiaduron a gwblhawyd gan wirfoddolwyr a fu'n cymryd rhan yn y GGaFf yn 2010 bod:

- 98% wedi mwynhau cymryd rhan yn y GGaFf
- Adroddodd 96% nad oeddynt wedi dod ar draws unrhyw broblemau wrth gynnal yr arolygon
- Roedd 95% yn teimlo bod yr hyfforddiant a dderbyniwyd ganddynt un ai'n dda neu'n ardderchog
- Roedd 94% yn fodlon gyda'r lefel o gefnogaeth a dderbyniwyd ganddynt
- Roedd 82% yn teimlo bod eu dealltwriaeth o adar ffermdir a chadwraeth wedi gwella
- Adroddodd 69% eu bod bellach yn fwy ymwybodol o bolisïau fel Cyfarwyddyd Adar yr UE

# Sicrhau gwybodaeth i chi

Mae'r RSPB yn diweddaru ei systemau a'i phrosesau ar gyfer storio gwybodaeth yn barhaol. Mae gwybodaeth fferm a manylion eraill a gyflenwir gennych chi yn cael eu cadw gan yr RSPB ar bapur ac yn electronaidd. Cedwir yr holl fanylion yn gyfrinachol. Ni fyddwn yn rhoi eich enw, cyfeiriad nag unrhyw wybodaeth arall i gyrff allanol heb eich caniatâd. Mae'r RSPB yn dod o hyd i ddulliau newydd o helpu ffermwyr i warchod bywyd gwyllt yn barhaol. Efallai y byddem yn hoffi cysylltu â chi o bryd i'w gilydd gyda gwybodaeth o'r fath. Os yw'n well gennych nad ydym yn defnyddio eich manylion fel hyn, cysylltwch â staff y project yn eich ardal chi - manylion cyswllt isod.

# Cyfarwyddyd Adar yr UE

**Nod Cyfarwyddyd Adar yr UE yw gwarchod bioamrywiaeth yn Ewrop. Mae'r gwaith sy'n cael ei ddisgrifio yn y cylchlythyr hwn yn hyrwyddo pwysigrwydd Cyfarwyddyd Adar yr UE mewn rheolaeth cadwraeth ar ffermdir, gan greu proffil positif drwy gyfrwng gweithgareddau hyrwyddol.**

## MWY O WYBODAETH www.rspb.org.uk neu e-bostiwch: v&fa@rspb.org.uk

### Cysylltwch â staff y project yn swyddfeydd canlynol yr RSPB


**Pencadlys y DU**

The Lodge, Sandy, Swydd Bedford SG19 2DL Ffôn: 01767 680551

**Pencadlys Cymru**

Tŷ Sutherland, Pontycastell, Heol Ddwyreiniol y Bont-faen, Caerdydd CF11 9AB Ffôn: 029 2035 3000

**Swyddfa Gogledd Cymru**

Uned 14 Llys Castan, Ffordd y Parc, Parc Menai, Bangor, Gwynedd LL57 4FD Ffôn: 01248 672850


**Mae'r RSPB yn siarad ar ran adar a bywyd gwyllt ac yn mynd i'r afael â'r problemau sy'n bygwth ein hamgylchedd. Mae byd natur yn anhygoel - dewch i'n helpu i'w gadw felly.**

**Rydym yn aelod o BirdLife International, y bartneriaeth fyd-eang o gyrff cadwraeth adar.**


Mae'r Gymdeithas Frenhinol er Gwarchod Adar (yr RSPB) yn elusen gofrestredig: Lloegr a Chymru rhif 207076, Yr Alban rhif SCO37654 223-0675-10-11